ASTUDIAETH ACHOS

SUT YDYN NI'N DEFNYDDIO EGNI?

Bu ysgol yng ngogledd Cymru yn archwilio egni a grymoedd gyda dysgwyr oedd yn gweithio o fewn Camau cynnydd 2 a 3. Dilynwyd y gweithgaredd hwn trwy wneud rhai tasgau oedd wedi cael eu haddasu i gyd-fynd â diddordebau a datblygiadau lleol.

Ar ôl gwylio'r fideo cyfareddol o'r tân yn y dasg gyntaf, bu'r dysgwyr yn ystyried ac yn ysgrifennu paragraff disgrifiadol oedd yn disgrifio'r golygfeydd, y synau, y teimladau a'r arogleuon sy'n gysylltiedig â thân.



Wrth ddefnyddio'r adnodd rhyngweithiol, cafodd dysgwyr eu swyno gan y gwahanol fathau o egni a allyrrir gan dân. Wrth ddysgu sut i osod tân, roedd y dysgwyr yn mwynhau defnyddio'r gweithgaredd rhyngweithiol ar-lein gan atgyfnerthu'r camau sydd eu hangen i osod tân yn ddiogel. Darparodd gweithgaredd ar y triongl tân atgyfnerthiad o'r tair elfen sydd eu hangen i dân losgi.



Bu'r dysgwyr yn ystyried trosglwyddiadau egni cyn ymchwilio i'r Haul a'i egni. Aethant ymlaen i ddylunio ac adeiladu eu popty solar eu hunain, gan brofi a gwella eu dyluniadau a chael profiad ymarferol gydag egni solar.

Darparodd y gweithgaredd lwyfan gwerthfawr ar gyfer trafod cymwysiadau egni yn y byd go iawn. Fe wnaeth yr athro ddefnydd o ddealltwriaeth dysgwyr o egni solar wrth iddo gynnwys dadl ynghylch bwriad i adeiladu fferm solar yn lleol, gan ysgogi medrau meddwl y dysgwyr. Roedd hyn yn gyfle gwerthfawr i bwyso a mesur manteision ac anfanteision datblygiad o'r fath.



Arnodiad gan yr athro dosbarth - "Cafodd y dysgwyr eu swyno'n arbennig gan elfennau rhyngweithiol yr adnodd. Edrychaf ymlaen at archwilio gweithgareddau eraill ac ymgorffori tasgau ychwanegol."